# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

## Adroddiad Blynyddol 2025/26

## Mawrth 2026

## Cyflwyniad

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys wardiau **Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin.** Mae ardal Golan wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Poblogaeth o 1009 (Cyfrifiad 2021) sydd gan Ward Dolbenmaen, ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Mae'r Cyngor Cymuned yn weithgar iawn ac yn gwneud gwaith amgylcheddol, yn cefnogi datblygiadau cymunedol ac yn cynorthwyo'r trigolion gyda materion personol a chymunedol. Rydym yn cynnig sylwadau ar bob cais cynllunio o fewn y gymuned.

Er mai dim ond Ysgol Garndolbenmaen sydd o fewn dalgylch y Cyngor, mae Ysgol Gynradd Llangybi, Ysgol y Gorlan Tremadog, Ysgol Treferthyr Cricieth ac Ysgol Borth y Gest hefyd yn gwasanaethu plant yr ardal. Dwy ysgol uwchradd sydd yn gwasanaethu'r ardal sef Ysgol Eifionydd, Porthmadog ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

## Dyletswyddau

Mae Cynghorau Cymuned yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn eu siroedd. Eu prif nod yw gwella amgylchedd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd.

Mae gan Gynghorau Cymuned bwerau cyfreithiol i ddarparu rhai gwasanaethau, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir yn eu hardal.

Dyma ambell beth mae Cynghorau Cymuned yn gyfrifol amdanynt –

- hysbysfyrddau ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd
- meinciau cyhoeddus a llochesi bysiau
- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
- gofalu am fynwentydd.

## Aelodaeth

Mae yna **16 sedd** ar y Cyngor Cymuned i gyd, ond yn dilyn ymddiswyddiad yn y flwyddyn ddiwethaf mae dwy sedd wag ar gael, un ym Mhentrefelin a'r llall yng Ngarndolbenmaen. Dyma'r Cynghorwyr sydd yn gwasanaethu a chynrychioli'r 5 ward o fewn Cymuned Dolbenmaen

| Ward | Cynghorwyr |
|---|---|
| Bryncir | Mr Edward Evans<br>Mr Richard Parry |
| Prenteg | Mr Richard Williams<br>Mr Gwilym Evans |
| Garndolbenmaen | Mr John Jones<br>Mr Clifford Williams<br>Mrs Enid Egginton<br>**Sedd Wag** |
| Golan | Mrs Megan Lloyd Williams<br>Mr John Till |
| Pentrefelin | Mr Huw Pritchard |

| | |
|---|---|
| | Mr Raymond Jones<br>**Sedd Wag** |
| Penmorfa | **Sedd Wag**<br>Mrs Gwenno Emlyn Huws<br>Mr Iddon Edwards |

**Staff**

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyflogi Clerc a Swyddog Ariannol sy'n gweithio'n rhan amser am **7 awr** yr wythnos.

Y Clerc yw: Miss Eleri Davies, Cartrefle, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9LX.

**Cyfarfodydd**

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan ar nos Iau gyntaf y mis am 7 o'r gloch. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fo materion sensitif yn cael eu trafod. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai, ym mhob ward yn eu tro.

Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor Cymuned, mae is-bwyllgorau wedi ei sefydlu - Cyllid a Llywodraethant, Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Eiddo.
Bydd yr is-bwyllgorau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd unrhyw argymhellion a wneir gan yr aelodau yn cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.

Yn ystod 2025-2026, mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

**Safle We**

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ynghyd a manylion gwariant y Cyngor Cymuned i'w gweld ar y safle we www.Dolbenmaen.Cymru.

**Atebolrwydd**

Ar ôl cael eu hethol, mae'n rhaid i'r Cynghorwyr lofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i lynu wrth y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cynghorwyr i weithredu'n briodol.

Disgwylir i'r Cynghorwyr ddatgan buddiant personol mewn unrhyw eitem ar yr Agenda os ydynt yn ymwybodol y gallent elwa mewn unrhyw fodd. Nid yw Cynghorwr (yr) sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Cedwir cofnod o'r buddiannau personol ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn flynyddol.

Mae'r rheolau ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau gweithdrefn a bennwyd yn y gyfraith. Maent yn helpu'r Cyngor Cymuned i weithredu'n ddidrafferth.

**Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Unllais Cymru - y corff ar gyfer Cynghorau Cymuned a Threfi, Cymru. Mae Unllais Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol, hyfforddiant a gwybodaeth ar ddatblygu polisïau.

Mae dau o'r Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd Unllais ar gyfer ardal Arfon/Dwyfor.

Bydd un o'r Cynghorwyr, bob yn ail gyda chynrychiolydd o Gyngor Tref Porthmadog, yn gwasanaethu ar fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan.

Mae un o'r Cynghorwyr yn gwasanaethu ar fwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd Garndolbenmaen.

**Cyllideb**

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn ceisio rhagweld pa wasanaethau y bydd yn eu darparu, ac yn amcangyfrif faint o arian fydd ei angen arno i'w cyllido. Paratoir cyllideb fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr. 'Gosod praesept' yw'r term swyddogol am hyn, ac mae'r arian yn cael ei gasglu drwy'r Dreth Gyngor. Mae yn destun balchder mawr nad yw'r Cyngor Cymuned wedi cynyddu'r praesept ers chwe blynedd bellach - mae hyn oherwydd ein bod yn ystyriol ofnadwy o'r argyfwng costau byw sydd yn wynebu trigolion.

Mae'r gwariant yn cael ei fonitro yn fisol a'r Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd llawn. Mae'r llyfrau ariannol yn cael ei gwirio yn chwarterol gan ddau Gynghorydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y llyfrau ariannol yn cael ei archwilio gan archwilydd mewnol sef Cwmni A-Hughes Jones, Dyson ac yn cael archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Rhoddion Ariannol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gynghorau Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor o'r farn y bydd y gwariant o fydd uniongyrchol i'r ardal. Rhoddir caniatâd hefyd i'r Cyngor wario at ddibenion elusennol.

Bob blwyddyn, rhoddir cyfle i fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor a thu hwnt, wneud cais am rodd ariannol. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Clerc a rhoi manylion bras am waith y mudiad ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Yna, bob mis Chwefror, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod y ceisiadau ariannol a dderbyniwyd cyn 31ain o Ragfyr, 2025. Fe gyfranwyd at y ceisiadau am gymorth ariannol canlynol:

| |
|---|
| Cyfeillion Ysgol y Gorlan |
| Neuadd Goffa Penmorfa |
| Theatr Bara Caws |
| Neuadd a Cae Chwarae Garndolbenmaen |
| Clwb Merched Garndolbenmaen |
| Canolfan Gymdeithasol Golan |
| Canolfan Pentrefelin |
| Eisteddfod Garndolbenmaen |
| Ysgol Garndolbenmaen |

| |
|---|
| Dawns i Bawb |
| Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog |

**Derbyniadau a Thaliadau 2025-2026**

| **Derbyniadau** | |
|---|---|
| Llog | £587.69 |
| Praesept/Grantiau | £18,000 |
| Mynwentydd | £1,190.00 |
| Arall | £7,166.02 |
| TAW | £692.46 |
| **Cyfanswm** | **£27,636.17** |
| | |
| **Taliadau** | |
| Cyflog | £4,101.29 |
| Costau Ffon / Cyfrifiadur Clerc | £420.00 |
| Treth | £1,023.79 |
| Mynwentydd | £6,652.44 |
| Llwybrau | £2,242.73 |
| Cae Chwarae Penmorfa | £960.00 |
| Hyfforddiant | £42.00 |
| Deunyddiau | £228.76 |
| Hysbysebu | £68.00 |
| Rhoddion Ariannol | £3,600.00 |
| Yswiriant | £959.09 |
| Cyfieithu | £0 |
| Rhent | £600.00 |
| Aelodaeth | £646.00 |
| Archwilio Cyfrifon | £320.00 |
| Arall | £6,879.70 |
| TAW | £1,756.03 |
| | **£30,499.83** |

Fe wnaeth pob Cynghorydd ddatgan nad oeddent am dderbyn y £156.00 o lwfans yr oedd hawl ganddynt ei dderbyn yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Gweithgareddau'r Cyngor 2025 - 2026**

Dyma grynodeb o'r math o waith y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mynwentydd

Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw'r mynwentydd canlynol:

- Mynwent Bethel, Golan
- Mynwent Prenteg, Prenteg

- Mynwent Llanfihangel-y- Pennant, Cwm Pennant
- Hen Fynwent Ty'n Llan, Penmorfa
- Mynwent Uwch y Llyn, Pentrefelin

Torrir y gwair yn rheolaidd yn y Mynwentydd rhwng mis Mai a mis Hydref gan gontractwyr lleol.

Bydd y Cynghorwyr yn cynnal arolwg o'r mynwentydd er mwyn cadw golwg ar eu cyflwr, gweld a oes angen gwneud unrhyw waith, a gwneud yn siŵr bod y beddi'n ddiogel.

Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar ym Mynwent Bethel, Golan er mwyn diffinio a chlirio ardal benodol ar gyfer claddu llwch ac ardal ar gyfer claddu plant. Nod y gwaith hwn oedd sicrhau bod trefniant clir a pharchus yn ei le, gan wella trefn y fynwent ac ymateb i anghenion teuluoedd yn ystod cyfnodau sensitif iawn. Mae'r gwaith wedi cyfrannu at wneud y fynwent yn fwy addas, urddasol a phriodol i wasanaethu'r gymuned leol.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gwaith i drwsio a sicrhau wal mynwent Eglwys Llanfihangel-y-Pennant, Cwm Pennant. Nod y gwaith oedd cynnal diogelwch y safle, diogelu ffiniau'r fynwent a sicrhau ei bod yn cael ei chadw mewn cyflwr addas a pharchus er lles y gymuned leol.

Trefnwyd torri coeden oedd wedi marw ym Mynwent Llanfihangel-y-Pennant gan ei bod yn peri pryder o ran diogelwch. Gwnaed y gwaith er mwyn lleihau risg i ymwelwyr, diogelu beddau cyfagos a sicrhau bod y fynwent yn cael ei chadw mewn cyflwr diogel a pharchus i'r gymuned leol.

Yn ystod y flwyddyn, newidiwyd y cytundeb casglu gwastraff o Veolia i Gyngor Gwynedd, gan fod y pris a gynhigiwyd, gan gynnwys trefniadau ailgylchu, yn fwy ffafriol. Gwnaethpwyd y newid er mwyn sicrhau gwerth gwell am arian cyhoeddus tra'n parhau i ddarparu gwasanaeth priodol i'r gymuned.

<u>Llwybrau Cyhoeddus</u>

Yn ystod tymor yr haf, trefnir **torri 21 o lwybrau cyhoeddus** o fewn ardal y Cyngor Cymuned er mwyn cynnal mynediad diogel a chyson i ddefnyddwyr. Caiff unrhyw rwystrau, diffygion neu bryderon ar y llwybrau eu hadrodd i Uned Hawliau Tramwy o fewn Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd, fel bo modd sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, codwyd y materion canlynol:

- Cerbydau'n rhwystro mynediad ar Lwybr 5 ger Bryn Moel.
- Nodwyd bod angen toriad ar Lwybr 110, ond cadarnhawyd nad oedd y llwybr hwn o dan ofalaeth y Cyngor Cymuned.
- Adroddwyd fod ochrau darn o Lwybr 5 wedi dymchwel ac angen sylw; mae'r gwaith angenrheidiol bellach wedi'i gwblhau gan gontractwyr Cyngor Gwynedd.
- Tynnwyd sylw at gyflwr y camfeydd o Craig y Garn i Barc Cenedlaethol Eryri, a chynhaliwyd cyfarfod safle gyda'r Uwch Warden Mynediad i drafod y sefyllfa.

Yn ogystal, torrwyd a chliriwyd coeden oedd wedi disgyn ac yn creu rhwystr ar hyd llwybr cyhoeddus ger Capel Horeb, Prenteg. Gwnaed hyn er mwyn adfer mynediad diogel a lleihau unrhyw risg o ran iechyd a diogelwch.

Cae Chwarae Penmorfa

Braf yw cael adrodd bod y Cae Chwarae a'r Ardd Gymunedol yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr i gymuned Penmorfa.

Mae trefniant mewn lle i drin *Japanese Knotweed* yng Nghae Chwarae Penmorfa. Gwneir hyn er mwyn rheoli'r planhigyn ymledol yn briodol, diogelu'r safle ac atal unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd a'r defnydd o'r cae chwarae gan y gymuned leol.

Materion Priffyrdd

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor Cymuned yn monitro ac yn adrodd ar amrywiaeth o faterion priffyrdd er mwyn diogelu lles trigolion ac ymwelwyr. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, gan sicrhau bod problemau'n cael eu nodi a'u datrys lle bo modd. Ymhlith y prif faterion a godwyd eleni oedd:

- **Golau stryd diffygiol ym Mhrenteg**: Adroddwyd am broblem gyda golau ger yr hen ysgol, a chafwyd ymateb gan y gwasanaeth goleuo. Mae'r diffyg bellach wedi'i drwsio.
- **Erydiad ochrau ffyrdd yng Nghwmystradllyn**: Nodwyd bod parcio ceir ar ymylon y ffordd yn achosi difrod.
- **Arwyddion traffig a chyfyngiadau cyflymder**: Trafodwyd materion arwyddion 'stop' ar Bont y Traeth, cyfyngiadau cyflymder o 60mya i 40mya, a phryderon am oryrru ym Mhenmorfa.
- **Gridiau gwartheg a draeniau**: Adroddwyd am gridiau gwartheg peryglus, draeniau wedi blocio, a dŵr yn cronni ar ffyrdd mewn sawl lleoliad.
- **Tyfiant a choed**: Nodwyd problemau gyda thyfiant trwm ar ffyrdd, coed wedi disgyn, a draeniau wedi'u rhwystro.
- **Arwyddion wedi'u cuddio**: Adroddwyd am arwyddion pont isel ger Criccieth a'r arwydd "ddim yn addas i gerbydau mawr" ym Mhrenteg.
- **Cyfarfodydd safle**: Cynhaliwyd cyfarfodydd safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod materion penodol, megis y ffordd gul rhwng Garreg Gron a Glan Gors a'r arwyddion pont ym Mhrenteg.
- **Diogelwch traffig a damweiniau**: Codwyd pryderon ynghylch damweiniau yng Nghyffordd Glandwyfach a defnydd anaddas o offer llywio lloeren gan lorïau.

Bu i'r Cyngor Cymuned drefnu i gael symud bin halen ger Isallt Bach i leoliad gwell ac archebu bin halen newydd a'i osod yng Nghwm Pennant.

Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau i adrodd ac i weithredu ar unrhyw faterion newydd sy'n codi, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles y gymuned.

Llochesi Bws

Mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am gynnal a chadw llochesi bws yr ardal. Trefnwyd i'r llochesi bws gael eu glanhau.

Mae trafodaethau yn parhau i geisio dod o hyd i ddatrysiad mater diogelwch safle bws Bryncir. Y gobaith yw cael datrysiad yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Grant Gwynedd Ni

Llwyddodd y Cyngor Cymuned i sicrhau grant gan Gyngor Gwynedd i brynu offer fideo-gynadledda ar gyfer pob Neuadd a Chanolfan Gymdeithasol yn y gymuned. Bydd hyn o fudd i'r gymuned drwy wella mynediad at gyfarfodydd, hyfforddiant a gweithgareddau ar-lein, cryfhau cysylltedd rhwng trigolion a chefnogi defnydd ehangach o'r neuaddau ar gyfer digwyddiadau a chydweithio lleol.

**Ceisiadau Cynllunio/Datblygiadau yn yr Ardal**

Derbyniwyd manylion **20** o geisiadau cynllunio ar gyfer y Ward –

| | |
|---|---|
| Bryncir | 1 |
| Prenteg | 1 |
| Cwm Pennant | 0 |
| Garndolbenmaen | 7 |
| Pentrefelin | 8 |
| Golan a Chwmystradllyn | 1 |
| Penmorfa | 2 |

Gwrthodwyd dau gais yn unig.

**Pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn hyd at 31.03.2025, sydd yn ofynnol gan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a bydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol.

Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan o lywodraeth leol, maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd a gweithio ar y lefel mwyaf lleol er lles y gymuned. Mae'r cyngor yn gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus. Yn ôl y gyfraith, mae angen sicrhau fod y cyngor yn diogelu a defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, gan roi cyfrif priodol amdano. Gwneir hyn wrth gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chyflawni'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd.

**Cynlluniau sydd ar y gweill**

Lloches Bws Bryncir.

Parhau gyda thrafodaethau i sicrhau bod gwelliannau yn cael ei wneud i safle bws Bryncir.

Mynwentydd

Creu ardal llechi coffau ym Mynwent Bethel, Golan.

Rheoliadau Ariannol

Byddwn yn adolygu ein rheoliadau ariannol yn dilyn derbyn rheoliadau wedi'i ddiweddaru gan Unllais Cymru.

Bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i geisio gwella amgylchedd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yng nghymuned Dolbenmaen.